



**Protocol Amlasiantaethol – Trothwyau ar gyfer  
Ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 a  
Wneir gan Wasanaethau Cymdeithasol a'r  
Heddlu ar y Cyd a chan Asiantaeth Unigol**

**CYSUR: BWRDD DIOGELU PLANT  
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

<b>Fersiwn</b>	<b>Dyddiad Diwygio</b>	<b>Perchennog</b>	<b>Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol</b>	<b>Dyddiad Adolygu</b>
F1	Ebrill 2012	Byrddau Diogelu Plant Lleol Dyfed Powys	dd/g	Mai 2018
F2	Rhagfyr 2017	Is-grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau	25 Ionawr 2018	Ionawr 2020
F3	Hydref 2022	Is-grŵp Polisiâu a Gweithdrefnau	24/01/2023	24/01/2025

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r protocol hwn yn rhoi arweiniad i wasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a phartion eraill sy'n rhan o unrhyw drafodaethau a/neu gyfarfodydd strategaeth ynghylch ymholiadau Amddiffyn Plant a wneir o dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 lle mae angen i wasanaethau cymdeithasol a'r heddlu wneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd neu lle mae angen i asiantaeth unigol wneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47.
- 1.2 Datblygwyd y protocol gan sefydliadau amlasiantaethol yr Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau ar ran CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- 1.3 Mae'r protocol yn ategu'r dogfennau isod, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â nhw:
  - *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant Sy'n Wynebu Risg*
  - *Gweithdrefnau Diogelu Cymru*
  - [Dogfen Trothwyau Rhanbarthol a Chymhwysra ar gyfer Cymorth CYSUR – Y Cymorth lawn ar yr Adeg lawn 2017](#)
  - [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)
  - [Deddf Plant 1989](#)

Mae'r gweithdrefnau hyn wedi cael eu hystyried, a byddant ar waith nes bod Gweithdrefn Trin Achosion Unigol Llywodraeth Cymru a'r Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan newydd wedi cael eu cadarnhau.

- 1.4 Mae'r protocol hwn yn ategu dogfen Trothwyau Rhanbarthol a Chymhwysra ar gyfer Cymorth CYSUR, sef 'Y Cymorth lawn ar yr Adeg lawn', sy'n rhoi cyngor i weithwyr proffesiynol ar drothwyau gwahanol, anghenion gwahanol a'r gwasanaethau gwahanol sydd a'r gael i blant a'u teuluoedd ar draws y continwrm a'r sbectrwm anghenion sy'n amrywio o wasanaethau cyffredinol a gwasanaethau ataliol ar gyfer y rhai lle mae angen ymyrryd yn statudol a phlant sydd mewn perygl o niwed ac mae angen eu hamddiffyn. Caiff y canllaw hwn ei ddefnyddio pan nodir y gall plant fod mewn perygl o niwed a phan fydd angen ymyrraeth statudol ffurfiol o dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

## 2. Y Broses Amddiffyn Plant

- 2.1 Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru [Gofal Cymdeithasol Cymru \(diogelu.cymru\)](#) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhaid cynnal Asesiad Gofal a Chymorth yn dilyn atgyfeiriad amddiffyn plant er mwyn penderfynu p'un a oes angen Gofal a Chymorth ar y plentyn a/neu a oes angen ei amddiffyn.

Wrth asesu gofal a chymorth, rhaid gweld y plentyn a siarad neu gyfathrebu â'r plentyn nes bod yr unigolyn sy'n cynnal yr asesiad yn fodlon bod y plentyn yn ddiogel. Fodd bynnag, ni ddylai'r gofyniad hwn arwain at unrhyw oedi wrth gynnal ymyriad neu roi mesurau amddiffyn ar waith os daw asesiad cychwynnol i'r casgliad bod y plentyn mewn perygl uniongyrchol a sylweddol.

- 2.2 Dylid cael cydsyniad rhiant/unigolyn â chyfrifoldeb rhiant cyn cynnal Asesiad Gofal a Chymorth ac unrhyw ymyriad parhaus, oni bai bod barn broffesiynol yn awgrymu y byddai hyn yn rhoi plentyn mewn perygl o niwed pellach. Dim ond os tybir y byddai gwneud hynny yn rhoi'r plentyn sydd mewn perygl o niwed mewn mwy o berygl, neu

os gall y plentyn/person ifanc, yn ôl barn broffesiynol, roi ei gydsyniad ei hun, heb gydsyniad rhiant, y dylai'r rheolwr yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn plant beidio â gofyn am gydsyniad y rhiant/unigolyn â chyfrifoldeb rhiant.

2.3 Yn ystod y broses Asesu Gofal a Chymorth, dylai'r rheolwr priodol yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn plant benderfynu a oes angen trafodaeth/cyfarfod strategaeth Amddiffyn Plant ac, os felly, dylai drefnu'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth Amddiffyn Plant cyn gynted â phosibl ac o fewn 24 awr i wneud y penderfyniad fan bellaf. Dylid cynnwys gwasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol a'r heddlu yn y drafodaeth/cyfarfod, a phartion eraill fel sy'n briodol, gan gynnwys asiantaethau iechyd ac addysg, unrhyw asiantaeth sy'n atgyfeirio ac, yn achos gwasanaethau rheoleiddiedig, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Yn ystod y drafodaeth/cyfarfod strategaeth, dylai'r cyfranogwyr rannu a thrafod yr holl wybodaeth sydd wedi dod i law/cael ei chasglu a phenderfynu ar y camau gweithredu nesaf o fewn 24 awr neu'n ddi-oed os ydynt yn pryderu ynghylch diogelwch a lles y plentyn.

2.4 Weithiau, gall fod gan weithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill, megis asiantaethau iechyd ac addysg, wybodaeth bwysig sy'n berthnasol i'r achos. Gall fod ganddynt ddarn hanfodol o wybodaeth goll a allai lywio'r broses benderfynu ac effeithio ar ganlyniad trafodaeth/cyfarfod strategaeth.

2.5 Pan fydd pryderon ynghylch esgeulustod neu gam-drin emosiynol a seicolegol, argymhellir bod y rheolwr yn yr adran gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn plant yn ystyried cael trafodaeth a/neu gyfarfod strategaeth ag unrhyw weithwyr proffesiynol ac aelodau o staff perthnasol, gan gynnwys y rhai o asiantaethau iechyd ac addysg, er mwyn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth sydd ar gael ei hystyried.

2.6 Rhaid penderfynu a oes angen gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ac, os felly, a ddylid gwneud hynny fel asiantaeth unigol neu ar y cyd, yn ystod trafodaeth/cyfarfod strategaeth Amddiffyn Plant. Mae angen i'r cyfranogwyr hefyd gynllunio'r broses a rheoli ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47.

2.7 Dylai pob asiantaeth berthnasol gael copi o gofnodion y drafodaeth/cyfarfod strategaeth. Mae hyn yn gweithredu fel rhwyd ddiogelwch er mwyn sicrhau bod asiantaethau nad oeddent yn rhan o'r drafodaeth/cyfarfod strategaeth, ond sydd â gwybodaeth sy'n bwysig i'r achos yn eu barn nhw, yn gallu ymateb.

### **3. Trothwyau**

3.1 Pan honnir bod plentyn wedi dioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth y tu allan i'r teulu, yr heddlu fydd yn ymgymryd â rôl yr asiantaeth arweiniol ac yn cynnal ymchwiliad fel asiantaeth unigol. Bydd yr heddlu yn cysylltu â'r adran gwasanaethau cymdeithasol sy'n gyfrifol am faterion amddiffyn plant i drafod yr honiad ac yn cael trafodaeth strategaeth. Os digwydd i anghenion gofal a chymorth y plentyn ddod i'r amlwg yn ystod ymchwiliad yr heddlu, bydd yr heddlu yn rhoi gwybod i'r adran gwasanaethau cymdeithasol briodol.

3.2 Mae'r tabl canlynol yn nodi canllawiau ar y trothwyau ar gyfer ymholiadau Amddiffyn

Plant o dan Adran 47 a wneir ar y cyd neu gan asiantaeth unigol mewn ymateb i honiadau o gam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol ac esgeulustod. Mae'n bwysig nodi, ar y cam atgyfeirio, na fydd yr honiad o bosibl wedi cael ei gadarnhau, a bod angen cynnal Asesiad Gofal a Chymorth cyn penderfynu a yw'r trothwy wedi'i gyrraedd.

### 3.3

<b>HONIAD O GAM-DRIN RHYWIOL</b>	
<b>Math o atgyfeiriad/adroddiad</b>	<b>Trothwy ymyrryd</b>
<b>Honiad bod plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol.</b>	Bydd gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu bob amser yn gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd.
<b>Canfyddiadau meddygol diagnostig am gam-drin rhywiol;</b> hynny yw, mae plentyn wedi cael ei archwilio'n feddygol ac, yn ôl y pediatregydd, mae arwyddion meddygol bod y plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, gyda/heb honiad neu gadarnhad arall gan y plentyn.	Bydd gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu bob amser yn gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd.
<b>Canfyddiadau meddygol nad ydynt yn ddiagnostig am gam-drin rhywiol;</b> hynny yw, mae plentyn wedi cael ei archwilio'n feddygol ac, yn ôl y pediatregydd, mae arwyddion meddygol bod y plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, ond nid ydynt yn arwyddion pendant. Nid yw'r plentyn yn honni hynny, neu mae'r plentyn yn rhy ifanc i honni ei fod wedi cael ei gam-drin.	Bydd gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu bob amser yn gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd.
<b>Plentyn yn ymddwyn mewn ffordd rywioliedig.</b>	Bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud ymholiadau fel asiantaeth unigol, oni bai bod gwybodaeth/tystiolaeth yn awgrymu bod trosedd wedi cael ei chyflawni.  Os bydd gwybodaeth/tystiolaeth yn awgrymu yn ystod ymholiad a wneir gan asiantaeth unigol bod trosedd wedi cael ei chyflawni, er enghraifft cam-drin plentyn yn rhywiol, bydd gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi gwybod i'r heddlu. Ceir trafodaeth/cyfarfod strategaeth, a chaiff ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 eu gwneud ar y cyd gan wasanaethau cymdeithasol a'r heddlu.

<p><b>Pobl ifanc sy'n weithredol yn rhywiol.</b></p>	<p>Cyfeiriwch at <i>Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Rhan 5, Protocol ar gyfer Diogelu a Hybu Lles Pobl Ifanc sy'n Weithredol yn Rhywiol. Mae crynodeb i'w weld isod.</i></p>
<p><b>Plant o dan 13 oed.</b></p>	<p>Yn unol â Deddf Troseddau Rhywiol 2003, nid yw plant o dan 13 oed yn ddigon hen i gydsynio i weithgarwch rhywiol.</p>
<p><b>Pobl ifanc rhwng 13 a 16 oed.</b></p>	<p>Bydd gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu bob amser yn gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd.</p> <p>Yn unol â Deddf Troseddau Rhywiol 2003, yr oedran y gallwch gydsynio'n gyfreithlon i weithgarwch rhywiol yw 16 oed o hyd. Er hynny, cydnabyddir bod gweithgarwch rhywiol cydsyniol, a lle nad yw'r naill ochr na'r llall yn camfanteisio ar ei gilydd, yn mynd rhagddo rhwng pobl yn eu harddegau, ac nad yw hyn yn achosi niwed sylweddol.</p> <p>Os bydd asesiad cychwynnol yn nodi nad yw'r naill berson ifanc na'r llall wedi camfanteisio ar ei gilydd, nac wedi cael ei orfodi i gymryd rhan, a bod y ddau ohonynt wedi cydsynio i'r gweithgarwch rhywiol, argymhellir fel arfer bod gwasanaethau cymdeithasol a/neu asiantaeth iechyd yn ymyrryd.</p> <p>Er y gall trosedd fod wedi'i chyflawni, o dan amgylchiadau o'r fath bydd yr heddlu yn penderfynu ar lefel unrhyw ymchwiliad troseddol, ond ni fydd yn ceisio troseddoli pobl ifanc.</p> <p>Os daw i'r amlwg yn ystod ymyriad gwasanaethau cymdeithasol a/neu asiantaeth iechyd fod un person ifanc wedi camfanteisio ar y llall neu wedi ei orfodi i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol, a/neu na chafwyd cydsyniad i weithgarwch o'r fath, dylid ailalw trafodaeth/cyfarfod strategaeth a chymryd y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn unol â <i>Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 a dylid ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gamfanteisio Rhywiol a'r Fframwaith ar gyfer Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol.</i></p>

<p><b>Pobl ifanc rhwng 17 a 18 oed.</b></p>	<p>Nid yw gweithgarwch rhywiol cydsyniol yn drosedd dros 16 oed. Fodd bynnag, mae pobl ifanc yn dal i gael eu hamddiffyn o dan <i>Ddeddf Plant 1989</i>. Fel rhan o unrhyw broses asesu gofal a chymorth/trafodaeth neu gyfarfod strategaeth, mae angen ystyried materion sy'n ymwneud â chamfanteisio rhywiol a chamddefnyddio pŵer wrth wneud penderfyniadau ynghylch ymyrryd. Dylid ystyried <i>Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gamfanteisio Rhywiol a'r Fframwaith ar gyfer Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol</i>.</p> <p>Yn unol â <i>Deddf Troseddau Rhywiol 2003</i>, nid ystyrir bod y person ifanc yn y grŵp oedran hwn yn gallu cydsynio os yw'r partner rhywiol yn rhywun yr ymddiriedir ynddo oherwydd ei rôl broffesiynol, megis gofalwr maeth neu athro/athrawes, neu'n aelod o'r teulu, fel y'i diffinnir yn y <i>ddeddfwriaeth</i>. Os digwydd i gŵyn gael ei gwneud yn erbyn gweithiwr proffesiynol, dylid dilyn <i>Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Rhan 4</i>, a dylai gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu wneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd.</p> <p>Os daw adroddiad i law sy'n awgrymu bod plentyn wedi cael ei gam-drin gan blentyn arall ac nad yw'n bodloni'r meini prawf uchod gan nad ydynt mewn perthynas, gweler yr adran isod: <i>Honiad bod plentyn neu berson ifanc yn ymddwyn mewn ffordd sy'n niweidiol yn rhywiol</i>.</p>
---	--

<p><b>Honiad bod plentyn neu berson ifanc yn ymddwyn mewn ffordd sy'n niweidiol yn rhywiol.</b></p>	<p>Gellir atgyfeirio'r mater yn gyntaf yn uniongyrchol at yr heddlu a fydd yn dechrau ymchwiliad troseddol. Dylai'r heddlu ystyried y mater yn atgyfeiriad Amddiffyn Plant, a rhaid iddo roi gwybod i wasanaethau cymdeithasol bob amser.</p> <p>Rhaid dilyn y protocol Ymddygiad Rhywiol Niweidiol priodol.</p> <p>Dylid gwahodd y Gwasanaeth Troseddau leuenctid bob amser i drafodaeth/cyfarfod strategaeth.</p> <p>Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu wneud ymholiadau Amddiffyn Plant ar y cyd mewn perthynas â'r dioddefwr honedig.</p> <p>Bydd yr heddlu yn cyfweld â'r cyflawnwr honedig yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.</p>
---	---

<b>HONIAD O GAM-DRIN CORFFOROL</b>	
<b>Math o atgyfeiriad/adroddiad</b>	<b>Canllawiau ar ymyrryd</b>
<p><b>Honiad bod plentyn wedi cael ei gam-drin yn gorfforol, a'i fod wedi'i anafu;</b> hynny yw, tystiolaeth feddygol o anafiadau, gyda/heb honiad gan y plentyn.</p>	<p>Bydd gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu bob amser yn gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd.</p>
<p><b>Adroddiad sy'n mynegi pryder y gallai plentyn fod yn cael ei gam-drin yn gorfforol, ond nid yw'r plentyn wedi honni hynny ac nid oes unrhyw anafiadau ganddo.</b></p>	<p>Dylai gwasanaethau cymdeithasol gynnal Asesiad Gofal a Chymorth a/neu ymyrryd er mwyn diogelu'r plentyn.</p> <p>Os bydd angen, dylid rhoi gwybod i'r heddlu am y canlyniadau er mwyn iddo ystyried a oes angen iddo wneud mwy mewn perthynas â'r mater.</p> <p>Os bydd gwasanaethau cymdeithasol yn dod yn ymwybodol yn ystod eu hasesiad a/neu ymholiadau bod cam-drin mwy difrifol wedi digwydd, sy'n gwarantu ymchwiliad troseddol, caiff yr heddlu ei hysbysu a cheir trafodaeth/cyfarfod strategaeth er mwyn penderfynu a ddylid gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd.</p>

<b>HONIAD O ESGEULUSTOD</b>	
<b>Math o atgyfeiriad/adroddiad</b>	<b>Canllawiau ar ymyrryd</b>
<b>Honiad/adroddiad bod plentyn yn cael ei esgeuluso'n ddifrifol</b> sy'n awgrymu bod yr esgeuluso'n barhaus ac yn ddifrifol a bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol.	Bydd gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd.
<b>Honiad/adroddiad bod plentyn yn cael ei esgeuluso</b> a bod pryder ynghylch lles y plentyn, ond nid yw'r asesiad cychwynnol yn nodi bod y plentyn yn cael ei esgeuluso'n barhaus a/neu'n ddifrifol ac, felly, nid yw'n gwarantu ymchwiliad troseddol.	Dylai gwasanaethau cymdeithasol gynnal Asesiad Gofal a Chymorth ac ystyried gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 fel asiantaeth unigol a/neu ymyrryd er mwyn diogelu'r plentyn. Os bydd angen, dylid rhoi gwybod i'r heddlu am y canlyniadau er mwyn iddo ystyried a oes angen iddo wneud mwy mewn perthynas â'r mater.
	Os bydd gwasanaethau cymdeithasol yn dod yn ymwybodol yn ystod eu hasesiad a/neu ymholiadau bod y plentyn wedi cael ei esgeuluso'n fwy difrifol, a bod hynny'n gwarantu ymchwiliad troseddol, caiff yr heddlu ei hysbysu a cheir trafodaeth/cyfarfod strategaeth er mwyn penderfynu a ddylid gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd.



<b>HONIAD O GAM-DRIN EMOSIYNOL</b>	
<b>Math o atgyfeiriad/adroddiad</b>	<b>Canllawiau ar ymyrryd</b>
<p><b>Honiad/adroddiad bod plentyn yn cael ei gam-drin yn emosiynol</b>, a bod y gamdriniaeth yn barhaus ac yn ddifrifol, a bod y plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol.</p>	<p>Dylai gwasanaethau cymdeithasol gynnal Aseiad Gofal a Chymorth a/neu ymyrryd er mwyn diogelu'r plentyn. Os bydd angen, dylid rhoi gwybod i'r heddlu am y canlyniadau er mwyn iddo ystyried a oes angen iddo wneud mwy mewn perthynas â'r mater.</p> <p>Os bydd gwasanaethau cymdeithasol yn dod yn ymwybodol yn ystod eu hasesiad a/neu ymholiadau bod y plentyn wedi cael ei gam-drin yn fwy difrifol, a bod hynny'n gwarantu ymchwiliad troseddol, caiff yr heddlu ei hysbysu a cheir trafodaeth/cyfarfod strategaeth er mwyn penderfynu a ddylid gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd.</p>

<b>HONIADAU/PYDERON ERAILL</b>	
<b>Math o atgyfeiriad/adroddiad</b>	<b>Canllawiau ar ymyrryd</b>
<p><b>Honiad/adroddiad o bryderon ynghylch plentyn mewn perthynas ag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Trais ar sail Anrhydedd neu Briodas dan Orfod</b> lle mae'r plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol</p> <p><b>Neu</b></p> <p>fod y plentyn mewn perygl uniongyrchol.</p>	<p>Dylai gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill gael trafodaeth a chyfarfod strategaeth</p> <p><b>Neu</b></p> <p>ddilyn gweithdrefnau amddiffyn brys a chael trafodaeth/cyfarfod strategaeth.</p>
<p><b>Adroddiad bod plentyn wedi mynd ar goll sawl gwaith</b>, teirgwaith mewn 12 mis</p> <p><b>Neu</b></p> <p>ddigwyddiad difrifol.</p>	<p>Dylai'r adran gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu gael trafodaeth strategaeth a chytuno i gael cyfarfod strategaeth</p> <p><b>Neu</b></p> <p>dylai gwasanaethau cymdeithasol gynnal Aseiad Gofal a Chymorth cyn cael cyfarfod strategaeth os yw'n briodol.</p>

<p><b>Adroddiad o bryderon ynghylch Camfanteisio Rhywiol ar Blant*</b> (*gellir ei gyfuno ag achosion o fynd ar goll)</p>	<p>Dylai gwasanaethau cymdeithasol gynnal Aseiad Gofal a Chymorth gan ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol. Os bydd y Fframwaith yn rhoi sgôr gymedrol neu uchel, dylid cael trafodaeth a chyfarfod strategaeth, os yw'n briodol</p> <p><b>Neu</b></p> <p>dylai'r heddlu (uned atgyfeiriadau ganolog) gael trafodaeth strategaeth â gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cytuno ar y camau gweithredu priodol: Gwasanaethau cymdeithasol i gynnal Aseiad Gofal a Chymorth/defnyddio'r Fframwaith ar gyfer Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol, yr heddlu'n unig i ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol, a chael cyfarfod strategaeth os yw'n briodol.</p>
<p><b>Adroddiad o bryderon ynghylch Radicaleiddio, Eithafiaeth a Therfysgaeth.</b></p>	<p>Dylai'r heddlu wneud ymholiadau cychwynnol, neu dylai'r heddlu (uned atgyfeiriadau ganolog) gael trafodaeth strategaeth â gwasanaethau cymdeithasol (ac os yw'r plentyn o oedran ysgol, asiantaethau addysg) er mwyn cytuno ar y camau gweithredu priodol: gwasanaethau cymdeithasol i gynnal Aseiad Gofal a Chymorth, yr heddlu'n unig i weithredu a/neu gael cyfarfod strategaeth os yw'n briodol.</p> <p>Dylid dilyn proses PREVENT. Dylai gwasanaethau cymdeithasol gytuno ar Banel Channel.</p>
<p><b>Honiad/adroddiad o Gaethwasiaeth Fodern.</b></p>	<p>Dylai'r heddlu wneud ymholiadau cychwynnol, neu dylai'r heddlu (uned atgyfeiriadau ganolog) gael trafodaeth strategaeth â gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cytuno ar y camau gweithredu priodol: gwasanaethau cymdeithasol i gynnal Aseiad Gofal a Chymorth, yr heddlu'n unig i weithredu a/neu gael cyfarfod strategaeth os yw'n briodol.</p> <p>Dylai gwasanaethau cymdeithasol gytuno ar System Atgyfeirio Genedlaethol.</p>

<p><b>Honiad/adroddiad bod gweithiwr proffesiynol/unigolyn sy'n dod i gysylltiad â phlant fel rhan o'i waith yn cam-drin plentyn.</b></p>	<p>Dylai gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu gael trafodaeth strategaeth a chynnal cyfarfod strategaeth proffesiynol. Dylid gwahodd y sefydliad sy'n cyflogi'r unigolyn i'r cyfarfod.</p> <p>Bydd gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn gwneud ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 ar y cyd, os cytunwyd i wneud hynny.</p> <p>Dylai gwasanaethau cymdeithasol gynnal Aseiad Gofal a Chymorth cyn cael cyfarfod strategaeth os yw'n briodol.</p>
---	---

#### 4. Casgliad

- 4.1 Yn dilyn honiad bod plentyn wedi cael ei gam-drin, bydd yr heddlu hefyd yn penderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad troseddol. Dilyniir canllawiau'r Swyddfa Gartref, sef *Achieving Best Evidence in Criminal Proceedings: Guidance for Vulnerable or Intimidated Witnesses, including Children 2001*, wrth gyfweled â phlant at ddibenion ymholiadau Amddiffyn Plant ac ymchwiliadau troseddol.
- 4.2 Os bydd gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu yn canfod achosion o gamdriniaeth gyfundrefnol yn ystod eu hymholiadau, dylid dilyn gweithdrefn *Ymchwiliadau Cymhleth i Gam-drin Plant: Materion Rhyngasiantaethol 2004 Llywodraeth Cymru* (gweler *Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, Rhan 4*).
- 4.3 Dylid rheoli unrhyw anghydfodau rhwng partïon ynghylch canlyniad trafodaethau/cyfarfodydd strategaeth Amddiffyn Plant, a ph'un a ddylai ymholiadau gael eu gwneud gan asiantaeth unigol neu ar y cyd, yn unol â *Protocol Datrys Anghytundebau Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (ar y gweill)*.
- 4.4 Dylid dilyn y protocol hwn wrth benderfynu a ddylai ymholiadau Amddiffyn Plant o dan Adran 47 gael eu gwneud gan asiantaeth unigol neu ar y cyd gan wasanaethau cymdeithasol a'r heddlu. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai fod angen gwneud penderfyniadau gwahanol mewn achosion penodol. Dylid cofnodi'r rhesymau dros wneud pob penderfyniad.